

## CYNOG (fl. 500?), sant

**Enw:** Cynog  
**Rhiant:** Banadlinet ferch Benadel  
**Rhiant:** Brychan ap Anlach  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** sant  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** John Edward Lloyd

yn ôl traddodiad, mab i [Brychan](#), sefydlydd teyrnas Brycheiniog, a Banadlwedd, merch i un o frenhinoedd Powys. Ym Mrycheiniog y coffeir ef gan mwyaf - y mae Defynnog, Ystrad Gynlais, Penderyn, Battle, Llangynog, a Merthyr Cynog i gyd o dan ei nawdd, a dywedir mai ym Merthyr Cynog y'i claddwyd. Cyflwynwyd eglwys Boughrood yn sir Faesyfed a Llangynog yn Sir Drefaldwyn hefyd iddo; bu iddo unwaith eglwys yn Llangunnoch ar afon Garren yn sir Henffordd ac un yn Llangunnoch ar afon Pill yn sir Fynwy; y mae Cwrt Brychan yn agos at yr ail. Dywedir i'w dad roddi iddo wddf dorch ac i hon ddyfod yn grair a ystyrid yn werthfawr iawn gan bobl yr holl gylch. Ni chadwyd mo'r dorch, ond dywed [Gerallt Gymro](#) iddo ef ei gweled ac y mae'n rhoddi disgrifiad ohoni; barnai Syr T. D. Kendrick (o'r Amgueddfa Brydeinig yn Llundain), ar ôl astudio'r disgrifiad, ei fod yn waith Cymreig neu Wyddelig o gyfnod y Vikingiaid, ac felly'n perthyn i'r 10fed ganrif neu'r 11eg.

### Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

### Ffynonellau

*The Lives of the British Saints*, ii, 264-71

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cynog ap Brychan](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2488951](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

